



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Astudiaeth achos treial y Rhondda

Llethrau iach

Crynodeb o'r prosiect

Mae **Llethrau iach** yn ffordd gydweithredol o reoli adnoddau naturiol y Rhondda yn well er mwyn lleihau effaith a difrifoldeb tanau tir agored.

Mae'r tanau tir agored sy'n cael eu cynnau'n fwrriadol yn effeithio ar gymoedd y De bob blwyddyn. Gall technegau rhagweithiol i reoli tir helpu i leihau maint y tanau hyn er mwyn eu hatal rhag lledu dros ochrau llethrau cyfan, difetha bywyd gwylt yn yr ardal a pheryglu cymunedau.

Mae swyddog prosiect yn cydlynu'r dull cydweithredol a ariennir yn rhannol gan CNC ac a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Chanolbarth Cymru. Mae'r Swyddog yn gweithio gyda phartneriaid, tîffeddiawyr lleol a'r gymuned i lunio strategaeth hirdymor ar gyfer lleihau tanau tir agored yn y Rhondda, a chydlynu gwaith ataliol ar lawr gwlad.



Effaith tân yn yr awyr agored, Y Rhondda 2015

**Cafwyd 513 o danau bwriadol yn Rhondda Cynon Taf yng ngwanwyn 2015.
Roedd 244 ohonynt yn y Rhondda.**



Llethr ym Mhendyrys, 2014



Llethr ym Mhendyrys (ar ôl llosgi), gwanwyn 2015

Pam gwneud hyn?

Mae lleihau ac ymdrin â thanau tir agored a achosir yn fwriadol yn rhywbeth a nodwyd yng ngweithdai rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda (fel rhan o'r cynllun treialu) fel risg â blaenoriaeth y dylai sefydliadau, grwpiau cymunedol a thrigolion fynd i'r afael â hi. Gall tanau o'r fath arwain at effeithiau lluosog ar fywyd gwyllt yn yr ardal, ansawdd yr aer, ansawdd y dŵr, mynediad a hamdden, diogelwch swyddogion tân, diogelwch cymunedol ac iechyd pobl (mae mwg tanau o'r fath yn wenwynig).



Gwartheg yn pori



HAZEL NASH
PHOTOGRAPHY

GTA DC yn llosgi dan reolaeth

Enghreifftiau o dechnegau rhagweithiol a gyflwynwyd yn 2016 i helpu i leihau llystyfiant (tanwydd) ar lethrau.

Nodau ac amcanion

Yn ôl y rhagolygon presennol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd, bydd Cymru'n debygol o brofi hafau mwy sych a gaeafau mwy gwlyb. Mae'r amodau hyn yn golygu y gallai tanau tir agored ddod yn bethau mwy cyffredin fyth yn y dyfodol. Mae'r prosiect hwn yn ceisio cynhyrchu camau hirdymor sy'n cynnwys:

- dilyn dull cydweithredol sy'n sicrhau manteision lluosog.
- cydlynu mesurau rhagweithiol i reoli tir er mwyn lleihau'r tanwydd ar y lethrau, er enghraifft: pori cadwraethol, llosgi dan reolaeth, torri brecio rhag tân, a gwaith clirio. Dechreuodd y gwaith ar lawr gwlad yn Ionawr 2016.
- adfer cynefinoedd blaenoriaethol a gwelliannau i safleoedd dynodedig; annog coetiroedd naturiol; gwella cysylltedd / cydnerthedd cynefinoedd; a gwelliannau i rywogaethau gwarchoddedig a blaenoriaethol.
- cefnogi'r economi wledig drwy weithio gyda ffermwyr lleol.
- gweithio gyda chymunedau lleol a rhwydweithiau gwirfoddolwyr i godi ymwybyddiaeth ac annog rhagor o gydnerthedd; canfod gwelliannau fel y gall cymunedau gael mynediad at gefn gwlad er mwyn annog rhagor o berchnogaeth leol; codi rhagor o ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd.










Beth wnaethom ni ei ddysgu am reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy

Y prif bwyntiau dysgu

- Dull amlbartneriaethol o ymdrin â'r dirwedd er mwyn helpu i fynd i'r afael â thanau tir agored, sef her fawr yn y Rhondda ac ardal yn y Cymoedd yn ehangach.
- Ffordd newydd o weithio. Brwdfrydedd ac ewyllys da rhwng partneriaid sy'n gyrru'r prosiect.
- Technegau rhagweithiol i reoli tir, wedi'u hymgorffori fel ffordd o helpu i leihau'r tanwydd ar lethrau. Mae'r technegau'n cynnwys: llosgi dan reolaeth, pori cadwraeth, dyrnu rhedyn, brecio rhag tân.
- Dull eang ac integredig er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

- Mae dull cydweithredol yn cyflawni prosiect mwy cynaliadwy, a bydd yn dod â manteision lluosog.
- Mae yna frwdfrydedd ac ewyllys da rhwng y sefydliadau sydd dan sylw ac sy'n gweithio mewn ffyrdd newydd gyda'i gilydd. Mae partneriaid yn credu y bydd y dull newydd hwn yn gwneud gwahaniaeth.
- Mae'r prif sefydliadau'n ymaddasu ac yn dysgu drwy'r dull. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Tân ac Achub DC wedi ail-strwythuro swyddogion lleol i helpu i ddarparu ffordd integredig o weithio, wedi prynu peiriannau ar gyfer rheoli llystyfiant, ac wedi cysegru 35 o ddiwrnodau hyfforddi ar reoli tanau tir agored.
- Mae'r manteision o weithio mewn partneriaeth yn eang, e.e. sesiynau diogelwch tân yn y Rhondda yn ymgorffori negeseuon am fywyd gwyllt a'r amgylchedd; fframwaith o rwydweithiau gwirfoddolwyr y dylid eu cynnwys; cynefinoedd gwell ar gyfer bywyd gwyllt; ardaloedd llosgi llai o faint yn gymorth i swyddogion allu rheoli tanau'n well a sicrhau arbedion i'r economi leol.
- Datrysiadau ar sail natur yn opsiwn cynaliadwy er mwyn gallu bod yn well am ateb yr heriau sy'n wynebu Cymru nawr ac yn y dyfodol.

Sut gwnaeth y prosiect hwn fodloni egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy?

Egwyddor		Sut gwnaethom ni gyflawni'r egwyddor hon
	Cydweithio ac ymgysylltu	9 partner craidd ar y grŵp llywio gyda phartneriaid cefnogol fel ffermwyr lleol, gwirfoddolwyr, Gwasanaeth Prawf, Iechyd Cyhoeddus Cymru.
	Tystiolaeth	GTA GC yn addasu eu dulliau cofnodi digwyddiadau o ran ymgorffori 'maint yr ardal a losgwyd' yn hytrach na data pwyntiau. Caiff llystyfiant ei fonitro er mwyn darparu tystiolaeth o ba mor effeithiol yw'r technegau rhagweithiol i reoli tir.
	Hirdymor	Bydd y dull, y maint a'r hyd a lled newydd yn datblygu dros amser, gan gyflwyno opsiynau cynaliadwy i reoli tir ac integreiddio'n well rhwng sefydliadau. Datblygu cais am gyllid hirdymor.
	Maint	Canolbwyntio i ddechrau ar y Rhondda er mwyn datblygu dull partneriaethol. Os bydd hynny'n llwyddiannus, gellir ei ehangu ledled cymoedd y de. Mae cynghorau Caerffili, Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful yn rhan o'r grŵp llywio.
	Manteision lluosog	Gwell bywyd gwyllt a chysylltedd, gwell effeithlonrwydd a diogelwch i GTA DC, arbedion i'r economi leol, gwelliannau i ansawdd yr aer a'r dŵr, mynediad gwell at hamdden, partneriaid yn gweithio'n arloesol.
	Cyfranogiad y cyhoedd	Ymgorffori rhwydweithiau gwirfoddolwyr lleol. Addysg a chodi ymwybyddiaeth, gan dynnu sylw at effeithiau tanau tir agored ar fywyd gwyllt ac iechyd, yn ogystal â diogelwch tân.
	Camau ataliol	Drwy fynd ati'n rhagweithiol i leihau'r tanwydd ar lethrau gellir lleihau difrifoldeb, maint ac effaith tanau tir agored. Codi ymwybyddiaeth i helpu i annog pobl yr ardal i werthfawrogi'r lethrau.
	Meithrin gwytnwch	Adfer cynefin y lethrau gan wella'r dirwedd a gwella gwytnwch tuag at y newid yn yr hinsawdd.
	Rheolaeth addasol	Y dull wedi dylanwadu ar y ffordd roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithio yn y Rhondda, gan addasu i ymgorffori hyfforddiant rhagweithiol ar danau tir agored, technegau rheoli tir (llosgi dan reolaeth, torri ac ati), prynu peirianwaith newydd, yn ogystal â'u rhaglen addysg barhaus.

Sut gwnaeth y prosiect gyflawni'r nodau llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Nod llesiant	Sut mae'r prosiect hwn yn cyflawni mewn perthynas â'r nodau?
Cymru lewyrchus	Mae rheoli'r tir yn rhagweithiol drwy gadwraeth yn cefnogi'r economi leol. Yn y dyfodol, mae'r farchnad gig 'conservation grade' yn rhywbeth i edrych arno o bosibl gyda PONT.
Cymru gydnerth	Yn ôl y rhagolygon ar gyfer y newid yn yr hinsawdd, bydd y gaeafau'n fwy cynnes a gwlyb a bydd yr hafau'n hirach ac yn sychach. Mae'r cyfuniad hwn o amodau'n golygu y gallai tanau tir agored ddod yn bethau mwy cyffredin yn y dyfodol. Drwy fynd ati'n rhagweithiol i reoli'r llethrau, gellir sefydlu tirwedd sy'n fwy gwydn rhag tywydd eithafol gan leihau'r effeithiau a chaniatáu i'r cynefinoedd allu ymadfer yn gynt.
Cymru iachach	Mae llawer o lethr y Ffridd* (cynefin nodweddiadol yng nghymoedd y De yw'r ffin rhwng gwaelod y cwm a'r ucheldir) wedi'i ddynodi'n dir mynediad agored dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae hyn yn rhoi mynediad i bawb at hamdden. Dengys yr ymchwil fod treulio amser yn yr awyr agored yn llesol i iechyd corfforol a meddyliol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cyfleoedd i wirfoddolwyr, hyfforddiant a phrofiad gwaith. Gall y prosiect helpu i wella'r Rhondda i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal, a lleihau effaith ddinistriol tanau tir agored ar gymunedau.
Cymru o gymunedau cydlynus	Mae gan gymunedau yn y cymoedd gysylltiad annatod â'u tirwedd, ac mae llawer o'r cymunedau wedi'u lleoli ar lethrau agored neu'n agos at rai. Drwy godi ymwybyddiaeth, mesurau ataliol ac annog perchnogaeth leol ac ymddygiadau cadarnhaol, gellir helpu i wneud cymunedau'n lleoedd diogel i fyw a gweithio.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Mae cynefin y ffridd yn dirwedd ddiwylliannol, sy'n amrywiol ac yn nodweddiadol o'r cymoedd. Mae manau treftadaeth pwysig ar y bryniau, a gellir eu gwarchod yn well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy reoli cynefinoedd.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Bydd adfer cynefin y Ffridd i gyflawni mwy gyda'n hadnoddau naturiol ar gyfer gwasanaethau ecosystemau yn cyfrannu at storio carbon, amddiffyn bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Partneriaid

